# Y ffordd iawn - dilyn y 5 "C"

- ✓ Y cynnyrch CYWIR i'r math o lyngyren
- ✓ Yr anifail CYWIR
- ✓ Yr amser CYWIR
- ✓ Y dôs CYWIR
- ✓ Wedi'i roi yn y ffordd GYWIR

@COWSworms
www.cattleparasites.org.uk

Mae COWS hefyd yn derbyn mewnbwn gan ffermwyr ac ymgynghorwyr annibynnol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni yn:
info@cattleparasites.org.uk @COWSworms

# Canllaw gan COWS ar ddefnyddio meddyginiaeth lladd llyngyr yn effeithiol

## Lladd llyngyr – Ydych chi'n gwneud y peth iawn?



COWS
Rheoli Llyngyr yn Gynaliadwy gan COWS

*Hybu rheoli parasitiaid mewn gwartheg yn gynaliadwy*

# COWS – Rheoli Llyngyr yn Gynaliadwy

### Pwy ydyn ni?

- Sefydlwyd COWS yn 2010 fel Grŵp llywio gan y diwydiant, gyda phanel o arbenigwyr technegol
- Mae COWS yn hybu strategaethau cynaliadwy i reoli parasitiaid mewn gwartheg

### Beth yw'r problemau yr ydyn ni'n ceisio eu datrys?

- Mae ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig bellach yn cael ei gydnabod fel bygythiad posibl i'r diwydiant gwartheg
- Mae bwlch yn ein gwybodaeth am y ffordd orau i drin a rheoli llyngyr mewn gwartheg ar y fferm

### Beth ydyn ni'n ei wneud i geisio datrys hyn?

- Mae COWS yn gweithio gyda milfeddygon, pobl sy'n SQP (Person Cymwysedig Addas), arbenigwyr yn y maes a ffermwyr i hybu'r arferion gorau, ar sail tystiolaeth, ar gyfer rheoli llyngyr mewn gwartheg
- Mae COWS yn rhoi'r wybodaeth dechnegol ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid drwy ystod eang o wahanol gyfryngau, gan gynnwys drwy'r wefan www.cattleparasites.org.uk, y papurau ffermio a deunydd printiedig

Gofynnwch am gyngor gan eich milfeddyg, SQP, cynghorwr ffermio neu fferyllydd milfeddygol




# Y 5 "C" ar gyfer defnyddio meddyginiaeth llyngyr gwartheg yn effeithiol

**Pan ddaw'n fater o drin llyngyr mewn gwartheg, cofiwch siarad â'ch milfeddyg, SQP, cynghorwr ffermio neu fferyllydd milfeddygol am gyngor ar sut i weithredu cynllun rheoli effeithiol ar y fferm sy'n GWEITHIO.**

### ✓ Defnyddio'r cynnyrch CYWIR i'r math o lyngyren

Mae cyffuriau anthelmintig yn perthyn i wahanol ddosbarthiadau ac yn gweithio ar wahanol lyngyr, ac weithiau yng nghyfnodau datblygu penodol y llyngyr.

Dylid dewis cynnyrch penodol i dargedu'r llyngyren, neu'r cyfnod datblygu, sydd fwyaf tebygol neu sydd eisoes yn bresennol ar y fferm.

Dylid hefyd ystyried pethau eraill, fel cyfnodau cadw'n ôl, ac unrhyw broblem y gwyddoch amdani o ran ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig.

Dylech siarad â'ch milfeddyg, SQP, cynghorwr ffermio neu fferyllydd milfeddygol am gyngor manwl ar ddewis y cynnyrch cywir ar gyfer problemau penodol ar eich fferm.

Dylech ond defnyddio cyffuriau a awdurdodwyd yn gyfreithlon i'w defnyddio ar rywogaeth penodedig neu fath o stoc sy'n cael llyngyr yn y Deyrnas Unedig.

### ✓ Trin yr anifail CYWIR

Does fawr i'w ennill o roi cyffuriau anthelmintig cyn diddyfnu. Fodd bynnag, wrth i'r anifail bori mwy a mwy, bydd stoc ifanc yn agored i lefelau uchel o lyngyr.

Bydd trin stoc ifanc yn effeithiol, pan fyddant fwyaf agored i gael eu heintio gan lyngyr, yn lleihau wyau halogedig ar y borfa ac yn lleihau lefelau heintio yn yr amgylchedd ymhellach.

Fel arfer mae gan wartheg hŷn imiwnedd da i lyngyr y perfedd a'r ysgyfaint ac felly, gan ddibynnu ar y sefyllfa ar y fferm, efallai na fydd angen eu trin. Fodd bynnag, rhaid cynnwys anifeiliaid o bob oed mewn cynlluniau rheoli llyngyr yr iau / afu.

### ✓ Trin gwartheg ar yr amser CYWIR

Nid oes un esgid yn ffitio pawb wrth reoli parasitiaid. Mae'r driniaeth yn dibynnu ar asesu amrywiol ffactorau, gan gynnwys risg y borfa, y math o anifail a'r amser o'r flwyddyn.

Gyda stoc ifanc, mae monitro twf yn arwydd da o bryd y mae'n amser trin llyngyr. Os yw'r cynnydd mewn pwysau byw dyddiol (DLWG) o dan y targed, fel rheol rhwng 0.7 a 0.8kg / y dydd ar ôl diddyfnu, dylid ystyried trin gyda meddyginiaeth anthelmintig.

Mae'r risg o glefyd mewn gwartheg yn uwch yn hwyrach yn y tymor, ar ôl canol haf, pan fydd llyngyr wedi ymgasglu yn y borfa. Fodd bynnag, gellir defnyddio meddyginiaeth llyngyr yn ystod deufis cyntaf y tymor pori i leihau'r siawns o wyau llyngyr yn halogi'r borfa. Gall cyfri'r wyau chwech i wyth wythnos ar ôl troi'r gwartheg allan a monitro eu pwysau / cyflwr roi syniad da i chi a fydd angen trin llyngyr yn fuan yn y tymor.

Dosio'n ôl y pwysau byw cywir




### ✓ Y dos CYWIR i wartheg

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, rhoddir dos penodol (ml) o feddyginiaeth anthelmintig yn ôl pwysau byw'r anifail (kg).

Felly mae'n bwysig:

1. Darllen y label neu grynodeb o nodweddion y cynnyrch (SPC) yn iawn.
2. Sicrhau bod eich cyfarpar dosio mewn cyflwr da, wedi'i galibradu ac yn lân
3. Dylid pwyso'r anifeiliaid neu ddefnyddio band pwysau i gyfrifo'r dos cywir i bob anifail.

### ✓ Rhoi'r feddyginiaeth yn y ffordd GYWIR

Gallwch roi meddyginiaeth anthelmintig i wartheg mewn gwahanol ffyrdd. Gan gynnwys drwy nodwydd o dan y croen; nodwydd wrth y glust; dyfeisiau bolws i'r stumog; cynhyrchion arllwys; a drenshys drwy'r geg.

Cofiwch ddarllen y label bob tro i sicrhau eich bod yn rhoi'r cynnyrch yn y ffordd gywir. Ni ddylech gymysgu cyffuriau anthelmintig ag unrhyw gynhyrchion eraill eich hun.

Peidiwch â chymysgu cyffuriau anthelmintig eich hun

